CLWB CYMRU

CYNGOR DOETH AR GYFER YMGYSYLLTU YSTYRLON

Mae nifer o resymau pam efallai yr hoffech chi ymgysylltu ag unigolion lleol a'r gymuned ehangach. Efallai er mwyn casglu meddyliau a safbwyntiau am fenter neu brosiect newydd. Gallai fod i gysylltu'n well â'r gymuned i weld sut gallwch chi gyfrannu at yr asedau cymunedol ar y cyd. Efallai i sicrhau gwell dealltwriaeth o bwy sydd ar garreg eich drws ac a all fod â sgiliau gwahanol yr ydych eu hangen neu y gallech elwa ohonynt yn y dyfodol. Neu efallai i fod mor dryloyw â phosibl ynghylch pwy ydych chi fel clwb a beth rydych chi'n ei wneud.

Beth bynnag yw eich rheswm, bydd deall sut i greu amgylchedd lle mae meddwl agored a chyfleoedd i ofyn cwestiynau'n sail i'ch ymgysylltu'n eich rhoi mewn lle da gyda'ch cymuned leol.

Isod mae cyngor doeth ar sut i gynnal ymgysylltu ystyrlon.

1. **Bod yn bresennol**
   Ceisiwch beidio â chymryd yn ganiataol oherwydd eich bod eisiau deall mwy am unigolyn, grŵp neu sefydliad y dylai ddod atoch chi. Ewch i'w gweld i gael gwybodaeth well am eu hamgylchedd wrth gael teimlad o'u diwylliant a'u cymuned.

2. **Bod yn hyblyg**
   Ceisiwch osgoi mynd i sgyrsiau gyda syniadau neu ragdybiaethau penodol am yr hyn mae eraill yn ei feddwl neu'n ei deimlo. Mae hefyd yn bwysig cofio na fydd pawb yn gwybod amdanoch chi a'ch clwb, felly efallai y bydd rhaid i chi roi mwy o wybodaeth am bwy ydych chi a beth rydych chi'n ei wneud yn y gymuned cyn i chi ddod i wybod am eraill.

3. **Gofyn cwestiynau da**
   Ceisiwch ddefnyddio cwestiynau penagored i ganfod gwir feddyliau, safbwyntiau a barn unigolion a sefydliadau. Rydych chi'n gofyn y cwestiynau yma er mwyn cael gwybod mwy felly byddwch yn ddewr wrth ddilyn hyn drwodd, dydych chi byth yn gwybod, efallai y dowch o hyd i ffyrdd newydd o feddwl neu wahanol gysyniadau nad oeddech chi wedi'u hystyried. Ceisiwch ofyn o leiaf un cwestiwn cyn symud ymlaen i'r pwnc nesaf.

4. **Osgoi rhoi atebion**
   Gall cwestiynau caeedig neu fynd i unrhyw sesiwn gydag atebion sydd eisoes wedi'u paratoi i'ch cwestiynau ddangos i unigolion a sefydliadau nad ydych chi wir eisiau darganfod eu meddyliau a'u hawgrymiadau. Gallai hyn effeithio'n negyddol ar sgyrsiau a chysylltiadau yn y dyfodol.

5. **Osgoi jargon technegol**
   Does neb yn hoffi cael ei daflu oddi ar sgwrs gan jargon technegol neu acronymau. Cadwch y sgwrs yn syml.

6. **Defnyddio amrywiaeth o ddulliau gwrando**
   Mae grwpiau bach a sgyrsiau un i un yn ddulliau gwych o wrando ond nid y rhain sydd fwyaf effeithlon bob amser. Gallwch edrych ar 'wrando' drwy holiaduron, arolygon a pholau ar gyfryngau cymdeithasol ond byddwch yn ofalus i beidio â dibynnu'n llwyr ar y dulliau hyn. Cofiwch fod perthnasoedd yn cael eu hadeiladu ar gysylltiadau personol, ymddiriedaeth a chyfathrebu.

7. **Deall y cymhellion**
   Mae unigolion a sefydliadau'n ymgysylltu orau pan fydd ganddynt fudd neu ddiddordeb cyffredin. Ceisiwch ddarganfod hyn ymlaen llaw os gallwch chi ac wedyn ei ddefnyddio fel ffordd i gyfathrebu a chysylltu. Mae unigolion mewn cymunedau lle mae diddordeb cyffredin yn fwy tebygol o weithredu, a all yn ei dro fod yn hynod ystyrlon a phwerus.

8. Cadw'r sgwrs yn fyw

Bydd sicrhau eich bod yn cysylltu ag unigolion a grwpiau drwy sgwrs ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw'n dangos eich bod yn gwerthfawrogi eu barn ac eisiau eu cadw'n rhan o'r siwrnai.

9. Gofyn, gofyn, gofyn

Mae gofyn a gwahodd yn rhai gweithredoedd allweddol sy'n cyffroi'r rhai yn y gymuned. Mae'n bwysig dangos i unigolion eich bod chi eisiau gwrando a dod i wybod mwy amdanyn nhw. Mae gofyn iddynt 'ymuno â chi' a dangos eich bod 'eu hangen' yn gwneud i unigolion deimlo eich bod eisiau iddynt gymryd rhan a bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi.

10. Cydbwyso proffesiynoldeb â phersonoliaeth

Mae dull proffesiynol o weithredu'n dangos safonau a gwerthoedd ond os cânt eu cyflwyno yn y ffordd anghywir gallwch adeiladu rhwystrau yn anfwriadol. Cadwch y sgwrs yn real ac yn bersonol. Holwch am yr unigolyn i ddechrau, cyn holi am ei gyfranogiad cymunedol, ei gryfderau ac ati.

Un o'r sylfeini allweddol sy'n sail i'r holl gyngor doeth yma yw ymddiriedaeth. Mae ymddiriedaeth yn elfen allweddol o greu a meithrin ymgysylltu. Mae meithrin ymddiriedaeth yn broses barhaus sy'n cymryd amser ac egni, a bydd gwahanol randdeiliaid yn cynnig lefelau amrywiol o ymddiriedaeth a pharodrwydd i ymddiried. Mae'n hollbwysig cydnabod hyn a chydweithio â rhanddeiliaid i feithrin ymddiriedaeth.

Cofiwch

Nod yr uchod i ddechrau yw eich helpu chi a'ch clwb i greu ymgysylltu ystyrlon yn lleol. Fodd bynnag, efallai y byddwch yn gweld eraill yn ymgynghori â chi, neu'n ymgysylltu a chi mewn digwyddiad rydych yn bresennol ynddo. Os byddwch chi'n mynychu unrhyw ddigwyddiad o'r fath, rhowch amser i adlewyrchu ar sut roeddech chi'n ymgysylltu. Sut gwnaethon nhw gysylltu â chi? Sut oedd eu hymgysylltu'n gwneud i chi deimlo? Beth oeddech chi ddim yn ei hoffi? Beth wnaeth i chi ymddieithrio efallai? Bydd casglu profiadau personol, ynghyd â rhai o'r awgrymiadau uchod, yn eich helpu i greu'r amgylcheddau gorau ar gyfer pan fyddwch chi a'ch clwb yn ymgysylltu.



